

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNED, TAI AC ASEDAU
9 CHWEFROR 2022

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau, Tai ac Asedau
Cynghor Sir y Fflint a gynhaliwyd dros y we ddydd Mercher, 9 Chwefror 2022

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ian Dunbar (Cadeirydd)

Cynghorwyr Helen Brown, Geoff Collett, Adele Davies-Cooke, Mared Eastwood,
Veronica Gay, Dennis Hutchinson, Brian Lloyd and Kevin Rush

DIRPRWYON: Y Cynghorydd David Wisinger (ar ran David Cox), y Cynghorydd
Sean Bibby (ar gyfer Ron Davies)

CYFRANWYR: Y Cynghorydd Dave Hughes (Aelod Cabinet Tai); Prif Swyddog
(Gwasanaethau Cymdeithasol); Uwch Reolwr Tai ac Atal; Rheolwr
Gwasanaethau'r Rhaglen Dai; Rheolwr Budd-daliadau a Rheolwr Cyllid Strategol
– Masnachol a Thai

HEFYD YN BRESENNOL: Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymunedau ac
Addysg a'r Swyddog Gwasanaethau Etholiadol

41. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Bu i'r Cynghorydd Sean Bibby ddatgan cysylltiad ag eitem 7 ar yr Agenda
(Cynllun Busnes NEW Homes) a dywedodd y byddai'n gadael y cyfarfod cyn
trafod yr eitem hon.

42. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2022, fel
y'u cynigiwyd a'u heiliwyd gan y Cynghorydd David Wisinger a'r Cynghorydd
Dennis Hutchinson.

PENDERFYNWYD:

Bod y cofnodion yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn
eu llofnodi.

43. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL A OLRHAIN GWEITHRED

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol
bresennol i'w hystyried. Cyfeiriodd at y cyfarfod ym mis Mawrth a gafodd ei
ganslo oherwydd yr Etholiadau Llywodraeth Leol a oedd i fod i gael eu cynnal ym
mis Mai, 2022. Dywedodd nad oedd unrhyw newidiadau i'r eitemau a
ddangoswyd ar gyfer y cyfarfodydd yn y dyfodol a drefnwyd ar gyfer mis Mehefin
a mis Gorffennaf, 2022. Mewn perthynas â'r camau gweithredu a ddeilliodd o'r
cyfarfod diwethaf, cadarnhaodd yr Hwylusydd eu bod i gyd wedi'u cwblhau, fel y
dangosir yn Atodiad 2 yr adroddiad.

Cafodd yr argymhellion a amlinellwyd yn yr adroddiad eu cynnig a'u heilio
gan y Cynghorydd Mared Eastwood a'r Cynghorydd Helen Brown.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn cael ei nodi;
- (b) Bod yr Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen;
- (c) Bod y cynnydd a wnaed o ran cwblhau'r camau sy'n weddill yn cael ei nodi.

44. STRATEGAETH Y RHAGLEN CYMORTH TAI (RCT) 2022/2026

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr Tai ac Atal adroddiad i roi trosolwg o ofynion y Strategaeth Cymorth Tai (HSP) a'r dull a ddefnyddiwyd yn Sir y Fflint i ddatblygu a mabwysiadu'r Strategaeth HSP erbyn diwedd mis Mawrth 2022. Roedd y Strategaeth HSP wedi'i hatodi i'r adroddiad, ynghyd â manylion ar gyfer cyflawni a monitro a chefnogi'r Cynllun Gweithredu ar gyfer y cyfnod 2022-2026.

Tynnodd yr Uwch Reolwr Tai ac Atal sylw at y meysydd canlynol, fel y nodir yn yr adroddiad:

- Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai
- Grant Cynnal Tai
- Gwasanaethau Grant Cynnal Tai
- Datblygu Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai
- Gweledigaeth, Egwyddorion a Blaenoriaethau Strategaeth HSP
- Cynllun Gweithredu Lleol Strategaeth HSP
- Gweithio Rhanbarthol

Er bod pob Awdurdod Lleol yn mabwysiadu ei Strategaeth HSP eu hunain ar gyfer 2022-2026, roedd ymrwymiad clir o hyd i gydweithio ar draws y rhanbarth. Roedd gweithio mewn partneriaeth wrth ddatblygu'r Strategaethau HSP wedi bod yn broses gadarnhaol ac roedd Gogledd Cymru yn parhau i gael ei barchu am ei weithgareddau cydgysylltiedig a'i gydweithio gan Lywodraeth Cymru (LIC) a rhanbarthau eraill.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Uwch Reolwr Tai ac Atal am yr adroddiad manwl a gofynnodd am y wybodaeth ddiweddaraf am y ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer digartrefedd yng Nghei Connah. Rhoddodd yr Uwch Reolwr Tai ac Atal ddiweddariad a dywedodd fod gwaith adnewyddu yn parhau i sicrhau 6 uned ychwanegol ar gyfer llety dros dro yng Nghei Connah. Adroddodd hefyd ar safleoedd a sicrhawyd yn y Fflint a Threffynnon ar gyfer llety dros dro ychwanegol a fyddai'n dod yn ased Cyfrif Refeniw Tai yn y dyfodol.

Gofynnodd y Cynghorydd Helen Brown a oedd safle arall i'r Hyb Digartrefedd presennol yn Queensferry wedi'i nodi. Gofynnodd a oedd y gwasanaeth yn bwriadu darparu cyfleoedd i brentisiaid a gofynnodd pa gymorth oedd yn cael ei ddarparu ar gyfer ieuchyd meddwl gan fod cysylltiad agos rhwng hyn a digartrefedd ac amlinellodd y pwysau sy'n cael ei roi ar Wasanaethau Gofal Cymdeithasol ar hyn o bryd. Eglurodd yr Uwch Reolwr Tai ac Atal fod safle wedi'i

nodi ac unwaith y byddai mewn sefyllfa i wneud hynny, byddai'n rhannu'r wybodaeth hon â'r Aelodau. O ran prentisiaethau, dywedodd eu bod wedi gofyn am brentisiaethau o fewn eu gwasanaeth a bod trafodaethau wedi dechrau ar sut y gellid gwella hyn ledled Sir y Fflint, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth â rhai o'r gwasanaethau comisiynu, yn ogystal ag ariannu cymorth wedi'i dargedu drwy'r rhaglen cymunedau ar gyfer gwaith.

Dywedodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) fod iechyd meddwl yn fater o bwys i holl drigolion Sir y Fflint a bod gwasanaethau'n hybu iechyd meddwl cadarnhaol. Dywedodd fod y ffordd yr adlewyrchwyd materion iechyd meddwl yng Nghynllun Cyngor y Cyngor wrth symud ymlaen wedi'i godi mewn cyfarfod diweddar o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd. Un cam yn deillio o'r cyfarfod hwnnw oedd bod swyddogion Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyfarfod â'r Cynghorydd Perfformiad Strategol i sicrhau bod materion iechyd meddwl yr oedd gan y Cyngor reolaeth drostynt wedi'u cynnwys yng Nghynllun y Cyngor. Awgrymodd y dylid estyn gwahoddiad i swyddogion y Gwasanaeth Tai i'r cyfarfod hwn.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Dennis Hutchinson ynghylch Gwasanaethau Cyngor ar Ddyledion, esboniodd y Rheolwr Budd-daliadau fod cyllid gan Lywodraeth Cymru wedi dod i ben ond tynnodd sylw at y Cynllun Cymorth Gaeaf a oedd wedi codi o £100 i £200 ac awgrymodd fod y wybodaeth am y Cynllun a lansiwyd ar 13 Rhagfyr, ac a ddosbarthwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor, cael eu hail-ddosbarthu yn dilyn y cyfarfod. Cytunodd yr Uwch Reolwr Tai ac Atal hefyd i ddosbarthu papur briffio/cyfeirio a fyddai'n helpu'r Aelodau i gyfeirio preswylwyr at wasanaethau, a oedd yn cynnwys y Porth Tai, at bob Aelod yn dilyn y cyfarfod.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd David Wisinger ar dir posibl y gellid ei ddefnyddio yn Queensferry, cytunodd yr Uwch Reolwr Tai ac Atal i gysylltu â Rheolwr Gwasanaethau'r Rhaglen Dai ynglŷn â'r posibilrwydd o ddefnyddio'r tir hwn yn dilyn y cyfarfod ac adrodd yn ôl i'r Cynghorydd Wisinger.

Cynigiwyd yr argymhellion fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad gan y Cynghorydd Dennis Hutchinson a'u heilio gan y Cynghorydd David Wisinger.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai, fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad, cyn i'r Cabinet ei hystyried yn ffurfiol; a
- (b) Bod y Pwyllgor yn nodi'r gwaith a wnaed hyd yma i ddatblygu'r Strategaeth HSP ar gyfer Sir y Fflint cyn ei mabwysiadu ar 31 Mawrth 2022.

45. ADRODDIAD CANFYDDIADAU ARCHWILIAD DIGARTREFEDD LLETY DROS DRO 2021

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr Tai ac Atal adroddiad i gadarnhau canlyniad Archwiliad diweddar o reoli llety dros dro yn Sir y Fflint. Roedd yr archwiliad wedi tynnu sylw at nifer o feysydd i'w gwella a chafodd ei gategoreiddio fel Adroddiad Archwilio Coch.

Nododd y Rheolwr Gwasanaeth nifer o feysydd i'w gwella a'r heriau gweithredol sy'n gysylltiedig â rheoli'r portffolio Llety Dros Dro. Gofynnodd am archwiliad i asesu'r gwasanaeth cyn canolbwyntio ar gynlluniau twf gwasanaethau. Roedd yr archwiliad yn gyfle amhrisiadwy i gael asesiad annibynnol o'r gwasanaeth a chyfle i nodi meysydd ffocws ar gyfer gwella gwasanaethau.

Byddai Cynllun Gwella Gwasanaethau manwl i ategu'r Ymateb i'r Archwiliad a mynd i'r afael â'r holl gamau gweithredu angenrheidiol i gyflawni argymhellion yr Archwiliad yn golygu y byddai ffocws cryfach ar egwyddorion craidd rheoli tai yr oedd eu hangen i drawsnewid y gwasanaeth a chynnig sicrwydd ei fod yn cael ei redeg yn effeithiol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Uwch Reolwr Tai ac Atal am yr adroddiad manwl a chroesawodd y Cynllun Gwella Gwasanaethau.

Awgrymodd y Cynghorydd Helen Brown y dylid ychwanegu argymhelliad ychwanegol at yr hyn a ddangosir yn yr adroddiad, bod y Pwyllgor yn cael adroddiad diweddarau pellach maes o law ac y dylid ychwanegu hyn at Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor. Gofynnodd hefyd a ddylid sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen o blith Aelodau'r Pwyllgor a chynrychiolydd o'r Cymdeithasau Tenantiaid i adolygu cynnydd y Cynllun Gwella. Eglurodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu na fyddai'n briodol sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar hyn o bryd oherwydd yr Etholiadau Llywodraeth Leol a gynhelir ym mis Mai 2022. Pe bai'r Pwyllgor yn cefnogi'r awgrym ei fod yn derbyn adroddiad diweddarau yn ddiweddarach yn y flwyddyn, gallai'r Pwyllgor ystyried bryd hynny a oedd angen sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen o hyd. Ychwanegodd yr Uwch Reolwr Tai ac Atal hefyd y byddai adroddiadau yn y dyfodol yn cynnwys diweddariadau ar gynnwys defnyddwyr gwasanaeth.

Mynegodd y Cynghorydd Kevin Rush bryder ynghylch y diffyg cymorth TG a gofynnodd am y wybodaeth ddiweddaraf am nifer yr eiddo Gwag ledled Sir y Fflint. Dywedodd yr Uwch Reolwr Tai ac Atal fod sicrwydd wedi'i roi y byddai capasiti o fewn y gwasanaeth TG i ddarparu'r cymorth angenrheidiol wrth symud ymlaen. Dywedodd y Rheolwr Budd-daliadau fod 217 o eiddo Gwag ar draws Sir y Fflint ar hyn o bryd. Roedd y rhain yn parhau i gael eu monitro'n rheolaidd ac esboniodd fod llawer iawn o wybodaeth yn cael ei darparu ynghylch pam fod yr eiddo'n Wag.

Cafodd yr argymhelliad fel yr amlinellir yn yr adroddiad, ynghyd â'r awgrym y dylai'r Pwyllgor dderbyn adroddiad diweddarau maes o law, ei gynnig gan y Cynghorydd David Wisinger a'i eilio gan y Cynghorydd Kevin Rush.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r Cynllun Gwella Llety Dros Dro, fel sydd wedi'i atodi yn Atodiad 2 yr adroddiad; a
- (b) Bod y Pwyllgor yn derbyn adroddiad diweddarau maes o law ar y cynnydd sy'n cael ei wneud i gwblhau'r Cynllun Gwella Llety Dros Dro.

Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) 1985 - Ystyried gwahardd y wasg a'r cyhoedd

PENDERFYNWYD:

Bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd am weddill y cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol yn rhinwedd gwybodaeth eithriedig o dan baragraff(au) 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

46. CYNLLUN BUSNES NEW HOMES

Cyflwynodd Rheolwr Gwasanaethau'r Rhaglen Dai a'r Rheolwr Cyllid Strategol - Masnachol a Thai Gynllun Busnes NEW Homes 2022/2051 ar y cyd cyn ei gyflwyno i'r Cabinet. Mae'r Cynllun Busnes yn cynnwys elfennau allweddol o Strategaeth Ddatblygu arfaethedig y cwmni i gynyddu nifer yr eiddo rhent fforddiadwy a ddarperir dros y ddwy flynedd nesaf.

Argymhellodd y Cynghorydd Mared Eastwood y dylai'r Pwyllgor argymhell Cynllun Busnes NEW Homes 2022/2051 i'r Cabinet a chafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd Lloyd.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor yn argymhell y dylai Cynllun Busnes NEW Homes 2022/2051 gael ei gymeradwyo gan y Cabinet.

47. MEMBERS OF THE PRESS IN ATTENDANCE

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.42am.)

.....
Cadeirydd